

PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD LLUN, 12 GORFFENNAF 2021

Yn Cynghorydd Weaver(Cadeirydd)
bressenol: Cynghorwyr Dilwar Ali, Howells a/ac Lay

28 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim.

Nododd y Pwyllgor, yn y Cyngor Llawn ar 27 Mai 2021, y penodwyd y Cynghorydd Weaver yn Gadeirydd y Pwyllgor a phenodwyd y Cynghorwyr Dilwar Ali, Howells, Lay a Graham Thomas yn aelodau o'r Pwyllgor.

Nododd y Pwyllgor Gylch Gorchwyl y Pwyllgor.

29 : DATGAN BUDDIANNAU

Dim.

30 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mai 2021 yn gofnod cywir.

31 : PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Cafodd y Pwyllgor wybod bod yr adroddiad hwn wedi'i baratoi i ddiweddarau'r Pwyllgor ar y cynnydd tuag at sefydlu trefniadau buddsoddi cyfun ar gyfer yr wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yng Nghymru o dan oruchwyliaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).

Darparwyd amlinelliad cynhwysfawr o'r adroddiad i'r Pwyllgor ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau;

Gofynnodd yr Aelodau a oedd unrhyw arwydd o'r amserlen debygol ar gyfer gwaith y farchnad breifat a'r aelod cyfetholedig. Dywedodd swyddogion fod y broses wedi dechrau yng nghyfarfod mis Gorffennaf y Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Roedd gwaith y farchnad breifat yn eithaf hir, byddai'n flwyddyn galendr ar gyfer is-gronfeydd cam 1 a thua 18-24 mis ar gyfer cam 2. Ar gyfer yr Aelod cyfetholedig, byddai hyn yn dibynnu pe bai angen i'r cytundeb Rhyng-Awdurdod fynd i'r Cynghorau cyfansoddol neu'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu i'w gymeradwyo, roedd Swyddogion yn aros am gyngor cyfreithiol ar hyn.

Ychwanegodd y Cyfarwyddwr ei fod am gydnabod y gwaith yr oedd Swyddogion wedi'i wneud yn ystod y cyfnod pontio hwn, roedd wedi bod yn gyfnod hynod gymhleth ac roedd am gofnodi ei ddiolch i'r tîm.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r datblygiadau diweddar yn y broses o sefydlu cronfa fuddsoddi'r PPC.

32 : Y GOFRESTR RISGIAU

Cafodd y Pwyllgor wybod bod Cofrestr Risg ar gyfer y Gronfa Bensiwn yn cael ei chynnal fel rhan o'r broses Rheoli Risg Corfforaethol. Mae'r Gofrestr yn ymdrin â phob agwedd ar reoli'r Gronfa gan gynnwys Buddsoddiadau, Ariannu, Llywodraethu a Gweinyddu. Gofynnwyd i'r Pwyllgor adolygu'r Gofrestr Risg gyfredol ar gyfer y Gronfa Bensiwn.

Amlinellodd y swyddogion yr adroddiad i'r Pwyllgor ac ar ôl hynny gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau.

Croesawodd yr Aelodau'r cyfle i edrych yn ddyfnach ar y Gofrestr Risg ochr yn ochr â'r Bwrdd Pensiwn Lleol.

Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai'n ddefnyddiol wrth symud ymlaen pe bai newidiadau'n cael eu nodi ym mhob cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor Archwilio yn nodi cynnwys y Gofrestr Risg.

33 : DATGANIAD CYFRIFON 2020/21

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Pensiynau yn nodi cyfrifoldeb y Pwyllgor i lywodraethu Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn strategol.

Mae'r Cylch Gorchwyl yn cynnwys ystyried datganiadau ariannol y Gronfa a chytuno ar yr Adroddiad Blynyddol.

Fel yr Awdurdod Gweinyddu, Cyngor Caerdydd sy'n gyfrifol am gynhyrchu'r Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer y Gronfa. Mae'r Datganiad Cyfrifon drafft heb ei archwilio 2020/21 ar gyfer Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg bellach ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor. Bydd Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn, ynghyd â'r rhai ar gyfer y Cyngor ac ar gyfer y Cydbwyllgorau lle mai Caerdydd yw'r corff atebol, ar gael i'r cyhoedd ei archwilio am gyfnod o 20 diwrnod gwaith o ddydd Iau 8 Gorffennaf i ddydd Mercher 4 Awst 2021.

Ar ôl cwblhau'r arolygiad cyhoeddus, bydd yr archwiliad o'r cyfrifon gan Archwilio Cymru yn dechrau. Bydd Cyfrifon wedi'u harchwilio yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac yna i'r Cyngor Llawn i'w cymeradwyo yn ystod yr hydref. Mae Datganiad Cyfrifon y Gronfa Bensiwn yn elfen bwysig o Adroddiad Blynyddol y Gronfa sydd i'w gymeradwyo yng nghyfarfod mis Tachwedd 2021 y Pwyllgor Pensiwn cyn y dyddiad cyhoeddi statudol, sef 1 Rhagfyr.

Amlinellodd swyddogion yr adroddiad i'r Pwyllgor ac ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan yr Aelodau. Esboniodd swyddogion y bu rhywfaint o ansefydlogrwydd ychwanegol yn y farchnad o ganlyniad i'r pandemig.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn nodi'r Datganiad Cyfrifon drafft ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21.

34 : COFNODION Y PANEL CYNGHORI AR FUDDSODDI

Mae'r eitem yn gyfrinachol ac ni chaiff ei chyhoeddi yn rhinwedd Paragraff 14 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972. Cafodd y cyhoedd eu gwahardd o'r cyfarfod i gyflwyno'r eitem hon yn unol â'r un ddeddfwriaeth.

PENDERFYNWYD: Nodi cofnodion cyfarfod y Panel Cynghori ar Fuddsoddi a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2021.

35 : EITEMAU BRYD (OS OES RHAI)

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am Ordaliadau/Tandaliadau.

36 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Pensiynau ar 23 Tachwedd 2021 am 4pm ac yna'r Cyfarfod Anffurfiol ar y Cyd â'r Bwrdd Pensiynau Lleol

Daeth y cyfarfod i ben am 5.37 pm